
# Canolfan Hamdden Y Pafiliwn yn elwa wrth arbed ynni



Mae ymgyrch i arbed ynni mewn canolfan hamdden yn ne Gwynedd wedi gweld ei boblogrwydd yn tyfu'n eithriadol a'i elw'n mynd o nerth i nerth.

Ers 2005, mae Canolfan Hamdden Y Pafiliwn yn Abermaw wedi llwyddo i leihau ei ddefnydd o nwy a thrydan fwy na hanner sydd wedi golygu gostyngiad aruthrol o 57.7% mewn allyriadau carbon ac arbedion sylweddol ar filiau ynni'r ganolfan.

Fel rhan o'i gynllun rheoli carbon dros gyfnod o bum mlynedd, mae Cyngor Gwynedd wedi buddsoddi i wneud ei adeiladau cyhoeddus yn fwy effeithlon o ran ynni, gyda'r nod o ostwng ei ôl troed carbon yn sylweddol yn ogystal â gwneud arbedion effeithlonrwydd.

Dywedodd y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros yr Amgylchedd:

"Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym fel Cyngor wedi gwneud gwelliannau i nifer o'n hadeiladau ar draws i sir i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n systemau ynni. Mae Canolfan Hamdden y Pafiliwn yn un o'r adeiladau sydd wedi derbyn gwelliannau, gan gynnwys system boeleri newydd a symlach, goleuadau mwy effeithlon a system reoleiddio gwres newydd.

"Yn ogystal â gwneud gwelliannau i'r adeilad, mae'r llwyddiant hefyd o ganlyniad i staff yn cymryd agwedd ragweithiol tuag at arbed ynni drwy fod yn ystyrlon ac ail-fuddsoddi'r arian a arbedwyd yn ôl yn yr adeilad. O ganlyniad, mae cynnydd o 30% yn nifer aelodau yn y Ganolfan sydd yn hynod galonogol i'r dyfodol."

Ychwanegodd Craig Papirnyk, rheolwr ar ddyletswydd Canolfan Hamdden y Pafiliwn, Abermaw:

"Pan gawsom ein cyllideb dair neu bedair blynedd yn ôl daeth yn amlwg bod rhaid i ni arbed arian. Drwy wella ein defnydd o ynni rydym wedi arbed yn sylweddol ac mae'r arian yma wedi ei fuddsoddi yn ôl yn y Ganolfan.

“Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi buddsoddi oddeutu £10,000 yn y gampfa ar amryw o beiriannau mae ein cwsmeriaid wedi gofyn a fyddai modd i ni eu prynu ar eu cyfer – mae hyn wedi bod yn bosib oherwydd bod ein costau rhedeg wedi lleihau. Heb os, mae’r peiriannau newydd hyn wedi annog mwy o bobl i ddefnyddio cyfleusterau’r ganolfan.”

Am fwy o wybodaeth am Ganolfan Hamdden Y Pafiliwn Abermaw ac am ba weithgareddau sydd yn cael eu cynnal yno, ewch i www.gwynedd.gov.uk/hamdden neu ffoniwch 01341 280111.